

Cyngor Cymuned Llanelian (254)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mai 13 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths	Gordon Hayes	Carol Whitaker
	Thomas D Jones	T Elfyn Hughes	David Herbert
	John Griffiths	Glenys Jones	Helen Hughes
	David Gerrard	Cyng. Wil Hughes	Cyng. Aled M Jones
	Cyng. Richard Jones	PCSO Alison Williams	

Ymddiheuriadau: Neb yn ymddiheuro

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

- Materion Partneriaeth Llwyfo (Cae Chwarae) – Dafydd Griffiths, T Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker
- Ceisiadau Cynllunio - Cyng. Wil Hughes, Cyng. Richard Jones

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio Thomas D Jones.

4 Materion yn Codi

- 4.1 Materion Parcio - Cafwyd wybod gan Cyng. Aled M Jones bod Huw Percy yn barod i gwrdd â'r Cyngor ym Mhenysarn neu yn Llangefni. Cytunwyd bod yr un aelodau ag o'r blaen yn cwrdd ag o ar ran y Cyngor. Bydd Cyng. Aled M Jones a Cyng. Wil Hughes hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Fe gadarnhaodd yr aelodau oedd yn bresennol bod y Cyngor Cymuned am gadw'r gwaharddiad yn y gulfan gan ei fod yn bwysig i bobl sydd eisiau defnyddio'r neuadd bod rhywle iddynt barcio, yn enwedig pobl hyn y pentref. CET
- 4.2 Partneriaeth Llwyfo - Cafwyd llythyr gan y Bartneriaeth yn cynnig bod y cae chwarae yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned. Cynigwyd bod cyfarfod penodol yn cael ei drefnu rhwng cynrychiolaeth o'r Cyngor a chynrychiolaeth o'r Bartneriaeth er mwyn trafod ymhellach a chael edrych ar y cynnig yng nghyd-destun cyllid y Cyngor. Cynnig Thomas D Jones, Eilio Glenys Jones. CET
- 4.3 Gwefan - Mae'r Clerc wedi rhoi cais i mewn am y grant llawn (£500) ac wedi cael pris gan gwmni lleol am wneud y gwaith sef £520 dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae Anglesey Computer Solutions wedi dylunio gwefannau i nifer o gynghorau eraill ar yr ynys. Cytunwyd cael pris arall gan gwmni lleol er mwyn cymhariaeth, a sicrhau enw i'r wefan cyn gynted â phosib. CET
- 4.4 Strategaeth Budd-daliadau Cymunedol Gwirfoddol - Cafwyd Adroddiad byr gan y Clerc wedi iddi fynychu cyfarfod yn y Cyngor Sir. Mae'r strategaeth yn gam i'r cyfeiriad cywir, a phwysleisiwyd y pwysigrwydd bod yr arian a roddir gan y cwmnïau yn dod i'r ardaloedd a fydd yn dioddef sgil-ffeithiau eu datblygiadau. Mae Cynghorau Cymuned Gogledd Môn eisoes yn cyd-weithio. Bydd mwy o ymgynghori yn y misoedd nesaf, a chyfarfod pellach yn yr Hydref. Cafwyd wybod mai'r Llywodraeth Brydeinig fydd yn delio a'r mater yn y pen draw ac nid Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

5 Heddlu Gogledd Cymru

Cafwyd cyflwyniad byr gan Alison Williams sydd newydd ei phenodi i weithio yn ardal Llanelian. Mae PCSO Williams o'r pentref felly yn adnabod yr ardal yn dda, ac am helpu a chefnogi'r Cyngor gydag unrhyw faterion lle bod angen. Bydd modd mynychu pob un o gyfarfodydd misol y Cyngor os oes angen. Cytunwyd y byddai copi o'r agenda yn cael ei anfon at PCSO Williams pob mis ac y byddai yn mynychu Cyfarfodydd y Cyngor os oes unrhyw faterion o ddiddordeb. Fe ddiolchoch y Cadeirydd i Alison am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno ei hun.

- 6 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)** CET
- Roedd tri chais i'w trafod -
- Gwelfryn, Penysarn (24C263B) - Cafwyd gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud a'r cais. Cytunwyd sefyll wrth sylwadau gwreiddiol y Cyngor i dynnu sylw at broblemau traffig posib gan nad oedd newid i'r cais.
 - Tan Terfyn, Llaneilian (24C166B) – Newid defnydd adeilad presennol i uned gwyliau ynghyd ag addasu ac ehangu a chreu mynedfa newydd i geir. Dim sylw.
 - Henblas, Llaneilian (24C129D) - Newid defnydd adeilad presennol i fod yn llety ategol. Dim sylw.
- 7 Materion Ariannol**
- 7.1 Cyfrifon 2013/14 - Dosbarthwyd copïau o gyfrifon y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chafwyd eu cymeradwyo yn dilyn trafodaeth fer o'u cynnwys.
- 7.2 Archwiliad 2013/14 - Cafwyd wybod bod yr archwiliad mewnol yn cymryd lle ar hyn o bryd, a gobeithir gallu adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Mae adroddiad byr wedi ei baratoi gan y Clerc mewn ymateb i ofynion yr archwiliwr, rhoddwyd cyfle i bawb ei ddarllen ac aethpwyd drwyddo fesul dipyn i drafod gwahanol agweddau ohono. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn codi ac roedd pawb yn hapus a'i gynnwys.
- 7.3 Ceisiadau am Arian – Yn dilyn y cyfarfod diwethaf cafwyd pris arall am arwyneb diogelwch i'r cae chwarae ac mae cais wedi ei gyflwyno ar gyfer arian grant gan y Cyngor Sir. Bydd y Clerc yn gweithio ar gwblhau mwy o geisiadau yn yr wythnosau nesaf. CET
- 7.4 Yswiriant 2014/15 - Mae'r polisi yswiriant angen ei adnewyddu ddiwedd y mis, ac mae dau bris wedi eu derbyn gan Aon (£341.80) a Zurich (£271.60). Ar ôl trafodaeth penderfynwyd symud at Zurich am flwyddyn. Cynigwyd gan T Elfyn Hughes, eiliwyd gan Thomas D Jones. CET
- Mynwent Llaneilian**
- 8.1 Arian Tŷ Moel Isaf - cytunwyd y dylai Pwyllgor y Fynwent gael rhyddid i weithio ar gynlluniau Mr Gwyn Roberts a Mrs Mair Morris i gwblhau gwelliannau yn y Fynwent. Mae £5000 wedi ei dderbyn gan Mrs Mair Morris tuag at y gwaith. CET
- 8.2 Giât y Fynwent - yn dilyn ymholiadau, mae'n debyg bod giât y fynwent wedi ei gynnwys ar restr '*listed buildings*' ac felly nid oes modd ei newid dim ond ei adnewyddu er ei fod mewn cyflwr gwael ac wedi ei drin amryw waith yn barod. Nid oedd Mrs Mair Morris yn fodlon talu am drin y giat presennol gyda'r rhodd ddiweddaraf. Penderfynwyd trefnu cyfarfod a Mr Dave Jump o'r Cyngor Sir ar y safle iddo gael gweld y giat ei hun a rhoi cyngor i'r aelodau ar sut i symud ymlaen i gael giat newydd. CET
- 8.3 Polisi Meinciau - cadarnhawyd bod gan y cyngor bolisi yn datgan mai dim ond dwy fainc sydd i'w gosod yn y fynwent. Mae dwy fainc yno ar hyn o bryd, ac mae un ohonynt angen gwaith arni i'w gwneud yn ddiogel. Cytuno cysylltu â'r teulu i weld os ydynt am ei adnewyddu, os nad oes diddordeb, byd cyfle i rywun arall gael gosod mainc petaent yn dymuno. Bydd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r fainc yn aros gyda'r sawl fydd yn ei roi. CET
- 9 Gohebiaeth**
- 9.1 Cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn cadarnhau bydd hyfforddiant Cod Ymddygiad yn cymryd lle ddiwedd yr Hydref. Os oes gan yr aelodau unrhyw beth oeddent am ei gynnwys yn yr hyfforddiant yna bydd angen rhoi gwybod i'r Cyngor Sir cyn gynted â phosib.
- 9.2 Daw llythyr o Langefni yn datgan y bydd system Camerâu Cylch Cyfyng y Cyngor Sir yn cael eu dad-gomisiynu ddiwedd Mai 2014 o ganlyniad i ddiffyg arian a thoriadau cyllidol.
- 9.3 Grŵp Ynys ynni Cymunedol - cafwyd nodyn yn hysbysebu 'r grŵp a'i gynlluniau am y dyfodol. Cytunwyd rhoi'r wybodaeth yn hysbysfwrdd y Cyngor er gwybodaeth i'r gymuned. CET

10 Partneriaeth Llithrfa Llanelian

Dosbarthwyd copiâu o gofnodion cyfarfod diweddar y Bartneriaeth er gwybodaeth. Bydd y bolard yn cael ei roi yn ei le o Fai 15 nes Medi 15. Bydd posib cael goriadau gan y Clerc wrth gwblhau ffurflen gan y Cyngor Sir. Mae cost y goriadau wedi aros yr un fath eleni sef £40, gyda £20 i'w ddychwelyd ddiwedd Hydref os caiff y goriad ei ddychwelyd.

11 Unrhyw Fater Arall

11.1 Arolwg Cae Chwarae - bydd grantiau tuag at arwyneb diogelwch yn cymryd rhai wythnosau i'w prosesu. Cytunwyd y dylai Pwyllgor y Cae Chwarae gyfarfod a threfnu bod unrhyw welliannau tymor byr yn cael eu cwblhau yn y cae cyn gynted â phosib cyn yr archwiliad blynyddol gymryd lle ym mis Mehefin. CET

11.2 Binau Ailgylchu - mae'r binau ym maes parcio Y Bedol yn llawn ac yn gorlifo. Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol o'u gwagio. Maent yn cael eu defnyddio, ac mae rhai wedi eu gwagio yn ddiweddar tra bod eraill yn gorlifo. Cyng. Aled M Jones am wneud ymholiadau. AMJ

11.3 Cais am Arian – Cafwyd dau gais am gymorth ar lafar gan fudiadau yn yr Ysgol drwy law Glenys Jones. CET

- Cylch yr Urdd Penysarn - mae saith eitem (10 o blant) wedi bod yn llwyddiannus ar gyrraedd Eisteddfod yr Urdd, a gofynnir am gyfraniad tuag at eu costau. Cynigwyd bod y Cyngor yn cyfrannu £75 i'r Ysgol tuag at gostau mynychu'r eisteddfod. Pawb yn hapus i gefnogi.
- Cylch Meithrin Penysarn - mae 20 o blant wedi eu cofrestru ar hyn o bryd a gofynnir am gyfraniad cyffredinol tuag at gostau'r grŵp. Gofynnwyd i'r grŵp ysgrifennu at y Clerc gyda'r nod o drafod y cais mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod nesaf.

11.4 Mae'r gwair ger cilfan Marie Curie angen ei dorri. CET

11.5 Hyfforddiant i Glercod gan Un Llais Cymru - Mae nifer o sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu gan Un Llais Cymru. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu i'r Clerc fynychu (£30 pob pwnc/sesiwn).

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –

10/6/2014, 8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.

CET05/2014